**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb 2023/24 | Sefyllfa 2023/24 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 21,114 | 20,394 | (720) | | (720) | 134 |
| Gofal Cartref | 9,554 | 10,781 | 1,227 | | 1,227 | 450 |
| Eraill | 285 | 609 | 324 | | 324 | 385 |
| | 30,953 | 31,784 | 831 | 0 | 831 | 969 |
| Anabledd Corff | 3,174 | 2,109 | (1,065) | | (1,065) | (411) |
| Anabledd Dysgu | 26,495 | 28,450 | 1,955 | | 1,955 | 2,347 |
| Iechyd Meddwl | 4,437 | 4,787 | 350 | | 350 | 292 |
| Eraill (Oedolion) | 3,684 | 3,737 | 53 | | 53 | 184 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **68,743** | **70,867** | **2,124** | **0** | **2,124** | **3,381** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | (29) | 241 | 270 | | 270 | 136 |
| Gofal Dydd | (33) | (146) | (113) | | (113) | (120) |
| Gofal Cartref | 381 | 2,161 | 1,780 | | 1,780 | 1,735 |
| Eraill | 2 | 21 | 19 | | 19 | 10 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **321** | **2,277** | **1,956** | **0** | **1,956** | **1,761** |

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb 2023/24 | Sefyllfa 2023/24 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,646 | 3,472 | (174) | | (174) | 239 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2023/24 | | | 0 | (3,806) | (3,806) | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **3,646** | **3,472** | **(174)** | **(3,806)** | **(3,980)** | **239** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **72,710** | **76,616** | **3,906** | **(3,806)** | **100** | **5,381** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - ym mhreswyl a nyrsio costau ffioedd uwch gan ddarparwyr preifat yn parhau ond gweithredu trefniadau cyfreithiol yn ymwneud â thaliadau gohiriedig dyledus ar gyfer preswylwyr, gan gynnwys dyledion hanesyddol, yn creu tanwariant un tro. Ymhellach i hyn, cynnydd yn y defnydd o welyau cartrefi mewnol yn cael effaith ffafriol ar gyfraniadau gan cleientau. Cynnydd yn y pwysau ar gyllideb gofal cartref wrth symud i'r model darparu newydd. Yn 'Eraill' gorwariant o £690k ar daliadau uniongyrchol sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar wasanaethau dydd.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - llai o alw am ofal cartref ond fod pwysau ar daliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu -** pwysau cynyddol a chostus llety cefnogol yn gyfrifol am £1.8m o'r gorwariant. Mae bid ariannol o £1.6 miliwn wedi ei ddyrannu yn barhaol i'r maes ar gyfer 2024/25 ymlaen i geisio cyfarch y galw. Pwysau hefyd i'w weld ar becynnau preswyl, taliadau uniongyrchol a chostau tacsis ar gyfer gwasanaethau dydd. Cynlluniau cefnogol yn tanwario ynghyd â derbyniad grant ac incwm ychwanegol yn cynorthwyo'r sefyllfa.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - pwysau ar y gyllideb preswyl a nyrsio ac ar lety cefnogol.

**Gwasanaethau Darparu** - gorwariant ar staff yng ngofal preswyl, ond bu lleihad mewn defnydd o staff asiantaeth yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus diweddar. Yng ngofal cartref, costau staffio uwch, gyda lefelau salwch a chyfraddau oriau di-gyswllt uchel. Y ddarpariaeth gofal dydd wedi ei effeithio ac wedi ei leihau dros y blynyddoedd diwethaf, felly yn tanwario.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol -** cyfuniad o dderbyniad incwm a grant un tro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gwerth £0.5 miliwn yn dileu effaith swyddi uwchlaw'r strwythur a diffyg gwireddu arbedion.

**Arbedion -** yn dilyn anallu yr adran i wireddu cynlluniau arbedion mae gwerth bron i £1.5m o arbedion eisoes wedi eu dileu eleni. Mae'r gorwariant adrannol o £3.9m a adroddir yn dilyn dileu yr arbedion.

O ganlyniad i'r gorwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bu i'r Prif Weithredwr gomisiynu gwaith yn gynharach yn y flwyddyn i egluro manylder cymhleth yn y darlun yng ngofal Oedolion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r materion a rhaglen glir i ymateb. Mae'r gwaith wrthi'n cael sylw ac yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gyda bwriad i adrodd ar y canfyddiadau yn fuan.

**Argymhellir** fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £3,806k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2024/25.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb 2023/24 | Sefyllfa 2023/24 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 591 | 512 | (79) | | (79) | (12) |
| Gweithredol | 2,559 | 3,114 | 555 | | 555 | 413 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 5,536 | 7,033 | 1,497 | | 1,497 | 506 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,791 | 1,563 | (228) | | (228) | (313) |
| Maethu Mewnol | 2,856 | 2,588 | (268) | | (268) | (204) |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,937 | 2,133 | 196 | | 196 | 113 |
| | 12,120 | 13,317 | 1,197 | 0 | 1,197 | 102 |
| Ôl-16 | 1,476 | 1,598 | 122 | | 122 | (101) |
| Gwasanaeth Derwen | 2,386 | 3,211 | 825 | | 825 | 774 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 262 | 231 | (31) | | (31) | (31) |
| Blynyddoedd Cynnar | 142 | 59 | (83) | | (83) | (12) |
| Uned Datblygu'r Gweithlu | 115 | 115 | 0 | | 0 | 0 |
| Eraill | 2,095 | 2,200 | 105 | | 105 | 129 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2023/24 | | | 0 | (2,511) | (2,511) | 0 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **21,746** | **24,357** | **2,611** | **(2,511)** | **100** | **1,262** |

## Plant a Theuluoedd

**Rheolaeth Gwasanaeth -** grantiau ar gael i gyllido gwariant craidd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Gweithredol** - cynnydd sylweddol yn y pwysau ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw y gyllideb gweithwyr maes.

**Lleoliadau** - cynnydd triphlyg yn y gorwariant ar leoliadau all-sirol ers Adolygiad Tachwedd gyda gorwariant o bron i £1.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Cynnydd yn y costau oherwydd cymhlethdodau pecynnau a defnydd cynyddol diweddar o leoliadau heb eu cofrestru, sydd fwy costus. Gwelwyd cynnydd yn y nifer cyfartalog eleni i 32.5 (25.7 ar gyfer 2022/23), gyda'r cyfartaledd cost oddeutu £216k yr achos.

Niferoedd cyfartalog Maethu drwy Asiant a Maethu Mewnol yn gyson efo niferoedd 2022/23 ond gan fod yna nifer o geiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid yn derbyn gwasanaeth, derbyniad incwm ar eu cyfer gan y Swyddfa Gartref yn arwain at danwariant. Pwysau ar y gyllideb gweithwyr cefnogol a'r Tim Lleoliadau.

**Ôl-16 -** cynnydd sylweddol yn y pwysau ar y ddarpariaeth yn bennaf oherwydd y nifer o geiswyr lloches ôl-16 i'r sir.

**Derwen** – y tueddiad gorwariant cynyddol yn parhau, gorwariant o £477k ar gostau gweithwyr cynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol. Bu newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda mwy o bwysau ar daliadau uniongyrchol sydd yn gyfrifol am £102k o'r gorwariant. Gorwariant ar yr Uned Egwyl Fer yn £74k oherwydd costau staff.

**Blynyddoedd Cynnar -** grantiau ar gael i gyllido gwariant craidd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Eraill** - cyfuniad o orwariant ar staffio, ffioedd gwasanaethau arbenigol ac ar gyfraniadau gwasanaethau ar y cyd, ond sydd yn cael ei leihau gan drosiant staff.

**Argymhellir** fod yr Adran Plant a Theuluoedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £2,511k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2024/25.

## CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - CYFRIFON TERFYNOL

| Adran Addysg | Cyllideb 2023/24 | Sefyllfa 2023/24 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 91,073 | 91,073 | 0 | | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (1,645) | (1,926) | (281) | | (281) | (193) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 6,286 | 7,795 | 1,509 | | 1,509 | 1,531 |
| Gwasanaeth Atodol | 1,381 | 982 | (399) | | (399) | (50) |
| Eraill | (58) | (74) | (16) | | (16) | (31) |
| | 7,609 | 8,703 | 1,094 | 0 | 1,094 | 1,450 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,465 | 2,273 | (192) | | (192) | (187) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 5,230 | 4,703 | (527) | | (527) | (27) |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 867 | 868 | 1 | | 1 | (25) |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 95 | 0 | (95) | | (95) | (241) |
| Defnydd o Gronfeydd Eraill yr Adran | 0 | 0 | 0 | | 0 | (700) |
| **Cyfanswm Addysg** | **105,694** | **105,694** | **0** | **0** | **0** | **77** |

## Addysg

**Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion** - cyfuniad o dderbyniad incwm, trosiant staff a chwtogi ar wariant.

**Cludiant** - gorwariant o £811k ar fysus ysgolion yn dilyn ail-dendro cytundebau yn ystod y flwyddyn ynghyd â gorwariant o £698k ar dacsis. Er mwyn ymateb i'r pwysau ar y maes mae cyfuniad o fidiau ariannol parhaol a dros dro wedi eu dyrannu ar gyfer cyllideb 2024/25 .

Mae'r maes Cludiant yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r bwriad i'r gwaith manwl barhau gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd, fel bod modd ceisio lleihau y gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - cynnydd mewn derbyniad grant ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer pris yr uned cinio ysgol am ddim ysgolion cynradd, ynghyd â incwm uwch ar gyfer arlwyaeth. Yr elfen gofal o'r clybiau brecwast yn parhau i orwario o ganlyniad i gostau staff uwch a diffyg incwm, oedd yn orwariant o £136k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - tanwariant ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - trosiant staff a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad -** darlun cymysg sydd yn gyfuniad o dderbyniad grant ac incwm ar ddiwedd y flwyddyn, trosiant staff a llai o bwysau ar y gyllideb all-sirol ac ar nifer o benawdau amrywio. Mae'r amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £142k.

Bu gwelliant yn sefyllfa ariannol yr Adran ers yr adolygiad diwethaf yn Nhachwedd, ac felly bu modd cwtogi y defnydd o gronfeydd i gynorthwyo y sefyllfa o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd. Er mwyn diddymu'r gorwariant o £95k mae'r adran yn defnyddio £95k o'u cronfa tanwariant adrannol.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb 2023/24 | Sefyllfa 2023/24 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 524 | 534 | 10 | | 10 | 10 |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 501 | 500 | (1) | | (1) | 0 |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | (366) | (376) | (10) | | (10) | 67 |
| Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill | 1,144 | 1,540 | 396 | (308) | 88 | 100 |
| Rhaglenni Datblygu Economaidd | (80) | (179) | (99) | | (99) | (75) |
| Marchnata a Digwyddiadau | 292 | 292 | 0 | | 0 | 0 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,630 | 1,605 | (25) | | (25) | (35) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 846 | 970 | 124 | | 124 | 132 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 87 | | (87) | | (87) | (140) |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **4,578** | **4,886** | **308** | **(308)** | **0** | **59** |

## Economi a Chymuned

| |
|---|
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** - bu gwelliant i sefyllfa ariannol morwrol a pharciau gwledig erbyn diwedd y flwyddyn ariannol o ganlyniad i drosiant staff yn yr Harbyrau a Thraethau ac incwm yn well ac yn rhagori'r targedau yn Hafan, Pwllheli a'r Harbyrau. Gwariant uwchlaw'r gyllideb yn ystod y flwyddyn yn faterion yn Noc Fictoria, Caernarfon ac ym Mharc Glynllifon.<br><br>**Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf bu i effaith Covid amharu ar incwm y cwmni. Bu i Lywodraeth Cymru eu digolledu am y golled yn 2020/21 a 2021/22 o'u cronfa caledi. Yn 2022/23 rhoddodd y Cyngor £550k o gefnogaeth ariannol i Byw'n Iach uwchlaw taliad cytundebol y gontract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi lleihau i £308k.<br><br>Ymhellach, gorwariant o £100k ar gostau rhedeg eiddo Byw'n Iach.<br><br>**Rhaglenni Datblygu Economaidd** - llwyddiant i ddenu grantiau sydd yn rhyddhau cyllideb craidd y Cyngor.<br><br>**Llyfrgelloedd Gwynedd** - swydd wag, llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb ond lleihad mewn derbyniad incwm llogi ystafelloedd.<br><br>**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - gorwariant yn bennaf gan fod diffyg incwm yn faterion yn Neuadd Dwyfor £101k,  Storiel £37k ac Amgueddfa Lloyd George £26k.<br><br>Er mwyn dileu y gorwariant a adroddir mae'r adran yn defnyddio £87k o'u cronfa tanwariant adrannol eleni. |
| **Argymhellir** i'r Cabinet gymeradwyo cymorth ariannol gwerth £308k i Gwmni Byw'n Iach. |

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Cyllideb 2023/24 | Sefyllfa 2023/24 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau:** | | | | | | |
| Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 11,415 | 11,752 | 337 | | 337 | 267 |
| Peirianneg | 438 | 514 | 76 | | 76 | (23) |
| Bwrdeistrefol | 5,620 | 5,955 | 335 | | 335 | 545 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | (39) | (100) | (61) | | (61) | (9) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2023/24 | | | 0 | (587) | (587) | 0 |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | **17,434** | **18,121** | **687** | **(587)** | **100** | **780** |

## Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd -** pwysau cynyddol ar y gyllideb cynnal ffyrdd a goleuo, sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gynnal pontydd ac ar yr ochr reolaethol a chefnogol. Llai o waith yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol hefyd yn cael effaith negyddol ar yr incwm a dderbynnir.

**Gwasanaethau Peirianneg -** y gorwariant o £76k o ganlyniad i gostau staffio a chostau cynyddol o gynnal Pont yr Aber.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol -** darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau sydd yn cynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Colledion incwm glanhau strydoedd, cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus, ond cynnydd yn yr incwm erbyn diwedd y flwyddyn gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Ymgynghoriaeth Gwynedd -** rhagori ar incwm gan sefydliadau allanol megis cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru ynghyd â thanwariant ar staff oherwydd swyddi gwag a throsiant staff.

**Argymhellir** fod yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £587k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2024/25.

Atodiad 2

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb 2023/24 | Sefyllfa 2023/24 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 832 | 832 | 0 | | 0 | 1 |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 604 | 720 | 116 | | 116 | 188 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 30 | (139) | (169) | | (169) | (130) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (2,392) | (1,851) | 541 | | 541 | (43) |
| Cludiant Integredig | 2,055 | 2,097 | 42 | | 42 | 13 |
| | (307) | 107 | 414 | 0 | 414 | (160) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 693 | 712 | 19 | | 19 | 1 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 2,111 | 1,848 | (263) | | (263) | (204) |
| Gwastraff | 13,215 | 14,441 | 1,226 | | 1,226 | 587 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 275 | | (275) | | (275) | (75) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2023/24 | | | | (1,137) | (1,137) | |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **17,423** | **18,660** | **1,237** | **(1,137)** | **100** | **338** |

## Amgylchedd

| |
|---|
| **Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu -** diffyg incwm yn faterion yn Rheolaeth Adeiladu, Rheolaeth Datblygu a Pridiannau Tir, ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau staff.<br><br>**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**<br>**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) -** yn rhagori ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.<br><br>**Parcio a Gorfodaeth Parcio -** diffyg yn yr incwm parcio wedi cynyddu i £601k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ond ei effaith yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau eraill.<br><br>**Cludiant Integredig -** ail-dendro cytundebau bysus cyhoeddus yn ystod y flwyddyn wedi arwain at orwariant ond derbyniad grant sylweddol gan Trafnidiaeth Cymru wedi cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa. Awgrymir y dylid parhau efo'r adolygiad i'r ddarpariaeth Cludiant.<br><br>**Gwarchod y Cyhoedd -** swyddi gwag, cwtogi ar wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb ac incwm uwch.<br><br>**Gwastraff -** nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd. Lefelau salwch a goramser hefyd yn broblemus, tra fod na gostau ychwanegol o ran hurio cerbydau. Gorwariant ar gostau rhedeg y canolfannau ailgylchu ac ar drin defnyddiau ailgylchu. £70k o arbedion sydd eto i'w gwireddu hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa.<br><br>Yn dilyn y tueddiad gorwariant cynyddol yn y maes gwastraff dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Adran yn rhoi camau mewn lle i weithredu argymhellion adolygiad allanol WRAP Cymru a mesurau gwella a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu ar 19/01/2023. Er bod gostyngiad wedi bod yng ngorwariant Gwastraff ers y llynedd (oedd yn £1.4 miliwn), yn ymarferol nid oedd yr Adran yn mynd i allu dod a'r gwasanaeth i sefyllfa niwtral ymhen blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r gwaith o gyflwyno'r newidiadau yn parhau ac mae'r rheolwyr yn ffyddiog y gwelwn welliant eto erbyn diwedd 2024/25. |
| **Argymhellir** fod yr Adran Amgylchedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £1,137k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2024/25. |

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Cyllideb 2023/24 | Sefyllfa 2023/24 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 360 | 288 | (72) | | (72) | (47) |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 4,965 | 6,961 | 1,996 | | 1,996 | 1,413 |
| Tai Sector Breifat | 437 | 422 | (15) | | (15) | (13) |
| Eraill | 244 | 254 | 10 | | 10 | (50) |
| | 5,646 | 7,637 | 1,991 | 0 | 1,991 | 1,350 |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 2,498 | 2,345 | (153) | | (153) | (32) |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 8 | 72 | 64 | | 64 | (4) |
| | 2,506 | 2,417 | (89) | 0 | (89) | (36) |
| Darpariaeth Un-tro Covid Corfforaethol | 1,400 | | (1,400) | | (1,400) | (1,200) |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 175 | | (175) | | (175) | 0 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2023/24 | | | | (155) | (155) | |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **10,087** | **10,342** | **255** | **(155)** | **100** | **67** |

| | |
|---|---|
| Cynnal a Chadw Corfforaethol | 701 |
| Cyllido o Gronfa Cynnal a Chadw | **(701)** |
| **Cynnal a Chadw Corfforaethol Net** | **0** |

## Tai ac Eiddo

**Rheolaeth** - tanwariant ar gostau staff ac ar wasanaethau a chyflenwadau.

**Digartrefedd** - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau i fod yn ddwys iawn gyda chostau cyfartalog uwch gan fod argaeledd llety argyfwng yn y sir wedi cyrraedd ei gapasiti. Mae'r gorwariant o £2m a adroddir yn dilyn ystyried y gyllideb ychwanegol o £3m sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor ac hefyd derbyniad grant o £597k gan y Llywodraeth i gynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol.

**Tai Sector Breifat** - trosiant staff a thanwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau ond diffyg yn yr incwm grant cyfleusterau i'r anabl.

**Gwasanaethau Tai, Eraill** - gorwariant staff a diffyg incwm.

**Gwasanaethau Eiddo** - swyddi gwag a derbyniad incwm yn gyfrifol am y tanwariant o (£147k).

**Gofalu, Arlwyo a Glanhau** - gorwariant ar gostau staff a diffyg yn yr incwm a dderbyniwyd.

**Darpariaeth un-tro Covid Corfforaethol** - dyraniad un-tro i gyfarch y costau ychwanegol yn ymwneud â Digartrefedd o £1.4 miliwn.

Er mwyn lleihau y gorwariant a adroddir mae'r adran yn defnyddio eu cronfa tanwariant o £175k yn ei gyfanrwydd eleni.

**Cynnal a Chadw Corfforaethol** - bu gorwariant o £701k ar y gyllideb cynnal a chadw refeniw corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

**Argymhellir** fod yr Adran Tai ac Eiddo yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £155k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2024/25.

| CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - CYFRIFON TERFYNOL | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adrannau Canolog** | Cyllideb 2023/24 | Sefyllfa 2023/24 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2023/24 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,690 | 2,679 | (11) | | (11) | 41 |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 7,391 | 7,384 | (7) | | (7) | 70 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,079 | 8,069 | (10) | | (10) | 22 |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **18,160** | **18,132** | **(28)** | **0** | **(28)** | **133** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - y gwasanaeth cyfreithiol yn rhagori ar incwm ac wedi cwtogi ar wariant yn dilyn penodiadau diweddar sydd wedi arwain at lai o ddefnydd o gyfreithwyr asiantaeth ac felly yn tanwario (£12k). Tanwariant ar gyllidebau eraill ond pwysau ychwanegol o £37k ar elfen Gwynedd o gyllideb y Crwner.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - bu gwelliant yn y sefyllfa ariannol o ganlyniad i gyfuniad o drosiant staff, rhagori ar incwm a gwireddu cynlluniau arbedion ymlaen llaw mewn paratoad ar gyfer arbedion 2024/25. Er hyn, costau bancio yn gorwario £107k wrth i fwy o daliadau gan gwsmeriaid gael eu gwneud trwy ddefnyddio cardiau ac felly'r ffioedd banc cysylltiedig yn daladwy gan y Cyngor, dyrannwyd bid i gyfarch y pwysau ychwanegol yn y maes fel rhan o fidiau parhaol 2024/25.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y sefyllfa gan gynnwys swyddi gwag a throsiant staff a derbyniad incwm ychwanegol erbyn diwedd y flwyddyn. Mae diffyg incwm yn faterion yn rhai meysydd gan gynnwys Cyswllt Cwsmer a'r Argraffdy. Gwelwyd pwysau ar y gyllideb cwnsela yn ystod y flwyddyn sydd wedi derbyn bid i gyfarch y galw fel rhan o fidiau parhaol 2024/25.

**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb 2023/24 | Sefyllfa 2023/24 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (314) | 314 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (487) | 487 | 0 | 0 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (5) | 5 | 0 | 0 |
| Derbyniad Llog | * | * | (103) | 103 | 0 | 0 |
| Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau | * | * | (142) | 142 | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (1,535) | 1,535 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(2,586)** | **2,586** | **0** | **0** |

## Corfforaethol

**Treth Cyngor** - cynnyrch treth ychwanegol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2023/24. Bu i'r nifer o ail gartrefi premiwm ostwng o 239 yn ystod y flwyddyn ariannol . Yn ychwanegol i hyn, er bod gostyngiad o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu 193 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (452 yn 2022/23, 469 yn 2021/22, 506 yn 2020/21). Yn 2023/24 mae £6m o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £3m pellach ar gyfer y maes Digartrefedd.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - cyfuniad o osod amcangyfrifon darbodus a lleihad pellach yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

**Costau Cyfalaf** - effaith y polisi rheolaeth trysorlys presennol wedi golygu y bu modd osgoi benthyca yn allanol, felly yn osgoi'r costau cysylltiedig.

**Derbyniad Llog** - cyfraddau llog uwch yn golygu fod y derbyniad llog yn rhagori'r gyllideb ddisgwyliedig.

**Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau** - y pwysau ar rai cyllidebau ddim cymaint a'r hyn a ddarparwyd.

**Eraill -** ni fu'r galw ar y ddarpariaeth mor uchel a'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

**Argymhellir** y dylid cynorthwyo'r Adrannau sydd yn gorwario yn 2023/24 gan eu cyllido o'r ffynonellau canlynol:

- yn gyntaf, defnyddio y balans o £4,402k sydd ar ôl yn y gronfa adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol.
- defnyddio y (£1,703k) yn dilyn yr ymarferiad cynaeafu cronfeydd a fanylir yn **Atodiad 3**
- defnyddio (£2,091k) o'r tanwariant ar gyllidebau Corfforaethol
- gyda gweddill y tanwariant ar gyllidebau Corfforaethol o (£495k) i'w neilltuo i'r Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol y Cyngor.